**Y Pwyllgor Busnes (Is-Ddeddfwriaeth)** **BC208-00(Terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mercher 28 Mehefin 2000

**Amser:** 10.45am

**Lleoliad:** Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10)

**Yn bresennol:** Y Dirprwy Lywydd, Cadeirydd
Y Trefnydd
Ieuan Wyn Jones, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Jenny Randerson, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Jane Jones, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (OCG)
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Personol y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Personol y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau

Barbara Wilson, Dirprwy Glerc y Cynulliad

## 2. Cofnodion y cyfarfod ar 24 Mai 2000 (BC183-00)

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion. Gan nad oedd unrhyw newidiadau, BC183-00 yn awr fydd y fersiwn derfynol a'r fersiwn a gaiff ei chyhoeddi. **Gweithredu: Craig Stephenson**

## 3. Materion yn codi

3.1 Dim.

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Diwygio) (Cymru) 2000

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes Bapur BC202-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Peter Law, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Hysbysodd aelodau'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd**

**angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio ymlaen i bwyllgor pwnc. (Gweithdrefn Gyflymach.)**

**<u>Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000</u>**

4.2 Nododd y pwyllgor Busnes bapur BC203-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Hysbysodd aelodau'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio ymlaen i bwyllgor pwnc. (Gweithdrefn Safonol).**

**<u>5. Gweithdrefnau Is-ddeddfwriaeth etc</u>**

5.1 Ystyriodd y pwyllgor y tabl o is-ddeddfwriaeth a oedd yn debygol o gael ei gyflwyno i'w ystyried cyn wythnosau etholaethol yr haf (BC205-00). Tynnodd Nerys Arch sylw'r Pwyllgor at y Gorchmynion Cychwyn ar y Ddeddf Llywodraeth Leol a'r Ddeddf Safonau Gofal (yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol a ddisgwylid ar eu cyfer). O ystyried bod y naill Ddeddf yn debygol o arwain at greu 40 o offerynnau statudol a'r llall at greu 60 ohonynt, cytunwyd y dylai OCG ddarparu mwy o fanylion ynghylch darpariaethau'r deddfau cyn cytuno ar y llwybrau y dylai'r ddwy eu dilyn. Nodwyd bod OCG eisoes yn gweithio â'r adrannau polisi i gynllunio ar gyfer yr offerynnau statudol a fyddai'n cael eu llunio mewn perthynas â'r Deddfau hyn. **Gweithredu: OCG i ddarparu cyngor pellach yn y cyfarfod nesaf er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i benderfynu ar weithdrefn ymdrin.**

5.2 Nododd y Pwyllgor y rhestr o Orchmynion a oedd yn annhebygol o gael eu cyflwyno cyn wythnosau etholaethol yr haf (BC206-00).

5.3 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad terfynol yr Adroddiad Rheoli Is-ddeddfwriaeth (BC194-00). Darparodd Sherry Rees a Jane Jones fanylion o argymhellion a chasgliadau'r adroddiad ar lafar i'r Pwyllgor. Nodwyd y canlynol fel y prif bwyntiau:

- **Yr Uned Rheoli Deddfwriaeth -** Roedd OCG wrthi'n adstrwythuro a recriwtio ar hyn o bryd er mwyn sefydlu'r uned hon. Byddai'n gyfrifol am gynllunio rhag blaen, am symud Offerynnau Statudol yn eu blaenau, am destunau Cymraeg, am reoli'r broses gyhoeddi ac am gysylltu â chyfreithwyr sy'n drafftio mewn meysydd pwnc. Byddai hefyd yn gyfrifol am nodi materion a ddatganolwyd ym maes deddfwriaeth sylfaenol ac am gyfathrebu ag adrannau polisi fel yn briodol. Byddai'r uned yn cysylltu â swyddogion sy'n cefnogi'r Weithrediaeth, y Cabinet, Swyddfa'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes. Dywedodd Jane Jones hefyd ei bod wedi mynychu cynhadledd yn ddiweddar ar gyfer cyfreithwyr ar "devolution – 1 year on". Y neges gref yno oedd bod yn rhaid i gyfreithwyr o wahanol adrannau'r llywodraeth gyfathrebu'n fwy effeithiol. **Gweithredu: Sherry Jones i anfon papur OCG unwaith eto (Atodiad 2 yr adroddiad).**

- **Cronfa ddata Is-ddeddfwriaeth -** Nid oedd y gronfa ddata bresennol yn gweithio'n iawn. Fodd bynnag, roedd sylw'n cael ei roi i hyn ac roedd datblygiadau'n cael eu gwneud i sicrhau y byddai'r cynllun wedi'i gwblhau erbyn mis Medi. Yn y cyfamser, roedd system gysgodi an-electronig yn darparu'r wybodaeth.

- **Hyfforddi -** Roedd Jane Jones wedi cynllunio cwrs hyfforddi newydd ac roedd wrthi'n ei ddarparu. Nodwyd bod y cwrs yn datblygu mewn dull mwy hyblyg nag a amlinellwyd yn yr adroddiad. Ystyriodd y Pwyllgor y ddarpariaeth hyfforddiant cyffredinol ar weithdrefnau a phrosesau is-ddeddfwriaeth ar gyfer yr Aelodau a'u staff cymorth. Nodwyd bod un cwrs hyfforddi blaenorol a ddarparwyd i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad wedi bod yn weddol fanwl o ystyried y materion yr oeddent am eu trafod. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r hyfforddiant ar gyfer ACau fod yn gyffredinol a dylai OCG ystyried a ddylid ei ddarparu yn ystod tymor cynadleddau'r pleidiau yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De yn ogystal ag yn adeilad y Cynulliad ym mae Caerdydd ac/neu drwy gysylltiadau fideo-gynadledda. Cytunwyd y byddai Craig Stephenson yn anfon e-bost at yr holl Aelodau a'r staff cymorth i weld a oedd diddordeb. **Gweithredu: Craig Stephenson.**

- **Tîm o "Hyrwyddwyr" -** Eglurodd Jane Jones y byddai person cyswllt profiadol ar gael ymhob is-adran i roi cyngor ar is-ddeddfwriaeth. Roedd y rhestr yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

- **Safle ar y Rhyngrwyd -** Byddai OCG yn barod i gyhoeddi Gorchmynion a oedd wedi cael eu gwneud ar y Rhyngrwyd o fewn pythefnos (i dawelu meddyliau ynghylch yr oedi o du Llyfrfa Ei Mawrhydi).

- **Cysylltu â Whitehall -** Nodwyd sylwadau Jane Jones ynghylch y neges a gododd o'r gynhadledd i gyfreithwyr a fynychodd yn ddiweddar. Er y teimlid bod y concordatiau a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng adrannau'r Llywodraeth yn gweithio, cysylltiadau anffurfiol a rhwydweithio oedd y pethau pwysicaf ar ôl datganoli.

- **Diwygio Rheol Sefydlog 22 -** Byddai hyn yn cael ei drin fel eitem agenda ar wahân.

5.4 Dywedodd y Trefnydd bod hwn wedi bod yn ddarn da o waith, o ystyried y newidiadau diwylliannol a chyfansoddiadol enfawr a oedd wedi deillio o ddatganoli. Roedd y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad wedi rhoi sylw i faterion a oedd yn achosi i bobl deimlo'n anghyfforddus yn hytrach na materion argyfyngus. Teimlai ei bod yn destun canmoliaeth i'r Pwyllgor Busnes bod yr is-ddeddfwriaeth wedi cael ei thrin yn dda, a hynny gan gynnwys pob un o'r pleidiau.

5.5 Ystyriodd y Pwyllgor y papur BC204-00 ar ddiwygiadau i Reol Sefydlog 22 a gynigwyd gan weithgor a oedd yn cynnwys cynghorydd cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd, Cyfreithwyr OCG, y cyfreithwyr a oedd yn cefnogi'r Pwyllgor Deddfau, swyddogion Swyddfa'r Llywydd, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet a swyddogion a oedd yn cefnogi'r Weithrediaeth mewn adrannau polisi. Dywedodd Sherry Rees, fel Cadeirydd y tîm, nad oeddent yn teimlo, wedi edrych yn ofalus ar Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r darpariaethau a oedd ynddi, bod llawer o gyfle i gynnig

newidiadau i'r Rheol Sefydlog hon. Yn Rheolau Sefydlog 22.11, 22.24 (a basiwyd y diwrnod blaenorol), 22.26 a Rhan 6 yr oedd y newidiadau a gynigwyd. Rhoddwyd manylion yn eu cylch yn y Rheol Sefydlog ddiwygiedig arfaethedig. Roedd Rhan 2 wedi cael ei hailysgrifennu'n llwyr.

5.6 Cytunodd y Pwyllgor y dylid rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried yr adolygiad yn ystod wythnosau etholaethol yr haf unwaith y byddai'r tîm prosiect wedi cael cyfle i wneud ychydig o newidiadau terfynol. Cytunwyd y dylid rhannu Rheol Sefydlog 22 yn 6 Rheol Sefydlog ar wahân er mwyn eu gwneud yn fwy derbyniol pan y'u cyflwynid, ac yn haws i'w darllen. **Gweithredu: Sherry Rees i wneud y diwygiadau angenrheidiol cyn dosbarthu.**

**6. Unrhyw fater arall**

6.1 Roedd arolwg o'r Gorchymyn Rhan 7 cyntaf wedi ei gyflawni. Nododd y Pwyllgor y byddai papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes ar Is-ddeddfwriaeth. **Gweithredu: Craig Stephenson.**

6.2 Roedd llythyr oddi wrth Mike German, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, at y Dirprwy Lywydd mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth a basiwyd o dan y gweithdrefnau brys wedi cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor. Byddai'r swyddogion yn ystyried ei gynnwys ac yn darparu cyngor maes o law.

6.3 Dosbarthodd y Trefnydd bapur ynghylch opsiynau ar gyfer newid fformat cwestiynau llafar i'r Prif Ysgrifennydd. Roedd y newid wedi codi yn sgil trafodaethau rhwng arweinyddion y pleidiau ac oherwydd bod teimlad nad oedd cwestiynau a gyflwynwyd bythefnos ymlaen llaw yn gyfoes erbyn iddynt gael eu gofyn. Byddai'r papur yn cael ei ystyried yn y Pwyllgor Busnes rheolaidd y dydd Mawrth canlynol. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes i ystyried yr opsiynau â'u grwpiau; Swyddfa'r Llywydd i ystyried effaith y fath newidiadau.**

6.4 Roedd Jenny Randerson yn bryderus nad oedd y pwynt a wnaeth yn flaenorol ynghylch cost cyfieithu ar gyfer grwpiau'r pleidiau wedi cael sylw. Roedd yn gwerthfawrogi bod Plaid Cymru'n derbyn cefnogaeth ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn ystod ei gyfarfodydd grŵp ond er nad oedd galw am gefnogaeth o'r fath ar gyfer cyfarfodydd grŵp ei grŵp hi, yr oedd galw am gyfleuster i gyfieithu gohebiaeth. Cytunodd y Trefnydd â phwynt Jenny Randerson ac ychwanegodd y dylai'r holl grwpiau gael gwybod am y trefniant a wnaed â Phlaid Cymru. Gwnaed yn glir nad oedd cyfieithwyr Swyddfa'r Llywydd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer Plaid Cymru, gan nad oedd cod y gwasanaeth sifil yn caniatáu hyn.

6.5 Dywedodd John Lloyd bod ateb ysgrifenedig wedi cael ei ddarparu i Mike German ynghylch y mater hwn ac y byddai copi, gyda chaniatâd Mike German, yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor, ynghyd â diweddariad o ddigwyddiadau ers i'r mater hwn gael ei godi ddiwethaf yn y Pwyllgor Busnes. Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod arian *Short* ar gael i grwpiau gan eu bod yn cael eu hystyried yn rhan annatod o fusnes y Cynulliad. Ychwanegodd John Lloyd bod yr arian hwn ar gael i grwpiau ar gyfer cyfieithu, ond nid ar gyfer swyddogaethau eraill. Roedd Jenny Randerson yn dal i fod yn bryderus nad oedd y neges hon wedi cael ei chyfleu i'r grwpiau

gwleidyddol. **Gweithredu: John Lloyd i roi amlinelliad o’r sefyllfa ddiweddaraf i’r Pwyllgor ddydd Mawrth nesaf.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**